Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Network Cymru

# Communities4Change Cymru:

## Glasbrint

Cathrine Winding, Christian Heathcote-Elliott a Dr Ciarán Humphreys



Mai 2021

*© 2021, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Gellir atgynhyrchu'r deunydd a geir yn y ddogfen hon yn unol â thelerau'r Drwydded Llywodraeth Agored (OGL) [www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/](www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/) cyhyd ag y gwneir hynny'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.*

*Atgynhyrchir yr eiconau yn [www.flaticon.com](www.flaticon.com) a'u dylunio gan Freepik, DinosoftLabs, Eucalyp a Becris.*

# 1 Diben

## 1.1 Cyd-destun

Mae ymagweddau cydweithredol, aml a rhyng-sector yn cael eu hystyried o fudd i wella iechyd y boblogaeth a lleihau annhegwch iechyd gan fod cryfderau, sgiliau a gwybodaeth yn cael eu cyfuno i weithio tuag at nod a rennir. Mae natur materion iechyd y cyhoedd yn gymhleth ac yn cynnwys amrywiaeth o strwythurau a systemau gwahanol. Nod gwaith aml-sector yw 'datod' y materion iechyd y cyhoedd cymhleth hyn trwy ddod ag unigolion o gefndiroedd gwahanol a allai gynnig safbwyntiau newydd ynghyd a rhoi llais iddynt.

## 1.2 Beth yw Communities4Change Cymru?

*'Sefydliadau (grwpiau) dros dro sydd yn dod ag unigolion ynghyd o asiantaethau lluosog gyda nod cyffredin o alluogi a chyflymu newid i wella iechyd a thegwch iechyd'*

## 1.3 Pam mae angen Communities4Change Cymru arnom?

Mae pandemig COVID-19 wedi gwaethygu anghydraddoldebau oedd eisoes yn bodoli mewn penderfynyddion iechyd yng Nghymru ac mae ymrwymiad cadarn bellach gan Lywodraeth Cymru i ailadeiladu'n well. Bydd hyn yn gofyn am fwy o gydweithredu ar draws pob sector i fynd i'r afael ag ystod o faterion iechyd y cyhoedd cymhleth. Datblygwyd ymagwedd Communities4Change Cymru i hwyluso gwaith ar draws sectorau gan ddefnyddio proses wedi ei hwyluso sydd wedi ei chyfyngu gan amser i gyflawni nod(au) cytûn.

## 1.4 Egwyddorion allweddol

| | |
|---|---|
| • Yn canolbwyntio ar nod ac wedi ei gyfyngu gan amser | • Casglu pobl sydd yn gweithredu heb awdurdod uniongyrchol ynghyd yn wirfoddol |
| • Ymdrechion cydweithredol traws-sector bwriadol i greu newid | • Yn cyd-fynd â blaenoriaeth strategol iechyd y cyhoedd ac yn gweithredu ar lefel dactegol neu weithredol |
| • Ffocws ar elw i iechyd y boblogaeth yn hytrach nag iechyd unigolyn | • Ffocws ar newidiadau mewn prosesau neu ymddygiad mewn sefydliadau, nid newidiadau strategol (ar raddfa fawr) |
| • Ffocws ar ddatblygu a chyflwyno atebion o flaenoriaethau cytûn | • Wedi ei hwyluso gan hwyluswyr nad ydynt yn arbenigwyr gan ddefnyddio offer / fframweithiau wedi eu llywio gan dystiolaeth |
| • Yn dibynnu ar arweinyddiaeth wedi ei ddosbarthu i gyflawni'r newid gofynnol | • Diffinio ac asesu effaith yn ofyniad allweddol |

### 1.5 Rôl Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru

- Bydd tîm y rhwydwaith yn cynorthwyo i hwyluso'r broses gydag arweinwyr wedi eu henwebu ac yn dewis arbenigedd ar y cyd pan fydd angen.

## 2 Cydrannau hanfodol ar gyfer ymagwedd Communities4Change Cymru




| **Amod/nodwedd** | **Disgrifiad** |
|---|---|
| Nawdd | Dylai fod gan bob grŵp Communities4Change Cymru noddwr wedi ei enwebu neu grŵp noddi. Dylai'r grŵp noddi fod yn grŵp arweinyddiaeth strategol sydd yn nodi'r cyfeiriad ar gyfer y gymuned ac yn nodi arweinwyr posibl. |
| Cymunedau lle mae amser yn gyfyngedig | Mae'r grŵp yn dod ynghyd am gyfnod wedi ei ddiffinio ymlaen llaw i gyflawni nod(au) a gytunir ar y cyd. Ni ddylai oes y gymuned fod yn fwy na 100 o ddiwrnodau er mwyn cynnal ffocws a gweithredu. |
| Proses wedi ei hwyluso | Dylai arweinwyr Communities4Change Cymru gael eu cefnogi gan hwylusydd nad yw'n arbenigol i'w tywys trwy'r broses a rhoi cyngor ar offer y dylid eu defnyddio yn y sesiynau grŵp. Yn dibynnu ar natur y newid, gellir rhoi cymorth hyfforddi i'r arweinwyr hefyd. |
| Ffocws ar effaith | Yn ystod cyfnodau ffurfio Communities4Change Cymru, dylai'r aelodau a'r Noddwr gytuno ar y cyd ar nodau CAMPUS a ffactorau llwyddiant. Dylai ffactorau llwyddiant ganolbwyntio ar effaith 'h.y. beth fydd wedi newid o ganlyniad i Communities4Change Cymru?' |
| Wedi ei lywio gan fewnwelediad | Wrth gwmpasu a chynllunio cyfarfod cyntaf Communities4Change Cymru, dylid pwysleisio deall y mater a diffinio'r newid sydd yn angenrheidiol. Dylid cael mewnwelediad o ffynonellau wedi eu cyhoeddi, gwybodaeth arbenigol a mewnwelediad a gwybodaeth yr aelodau ar y cyd. Mae i'w ddisgwyl y bydd casglu mewnwelediad yn bwysig trwy gydol cyfnod gweithredu cylch bywyd Communities4Change Cymru. |
| Arweinyddiaeth addasol ac wedi ei ddosbarthu | Mae arweinyddiaeth addasol yn gofyn i arweinwyr ganolbwyntio ar sicrhau bod yr holl aelodau'n teimlo eu bod yn cael eu clywed, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Mae arweinyddiaeth addasol yn ymwneud â dosbarthu pŵer a chyfrifoldeb yn ogystal â'r arweinydd yn 'nyrsio'/meithrin syniadau yn hytrach na gorchymyn y cyfeiriad i'r gymuned. Yn Communities4Change Cymru, dylai arweinyddiaeth gael ei ddosbarthu hefyd fel bod aelodau sydd yn cynrychioli sectorau gwahanol yn perchnogi ac yn cael ymrwymiad gan eu sefydliadau i ddatblygu'r atebion a chyflawni effaith. |
| Traws-gydweithredu | Dylai Communities4Change Cymru fod yn grŵp aml-sector, cydweithredol iawn lle mae sgiliau a gwybodaeth pob aelod yn cael eu cydnabod a chyfeiriad meddwl ar y cyd dros newid yn cael ei ddatblygu dros amser. |
| Datblygiad ailadroddol o atebion | Yn dibynnu ar ddiben a nod(au) Communities4Change Cymru, efallai na fydd ateb wedi ei ddiffinio ymlaen llaw. Byddai disgwyl i Communities4Change Cymru ddatblygu, profi a mireinio atebion yn ystod y cyfnod gweithredu. |
| Cyfranogiad y defnyddiwr terfynol | Dylid ystyried pwy fydd y newid yn ei effeithio a rhoi llais i'r unigolion / poblogaethau hynny yn ystod cyfnod gweithredu. |

Cafodd y cydrannau hyn eu nodi trwy chwilio'r llenyddiaeth lwyd a thrwy drafodaethau gydag arbenigwyr pwnc[1].

# 3 Cylch Bywyd Communities4Change Cymru

- Mae Communities4Change Cymru yn dilyn proses gyda thri chyfnod penodol. Mae'r cyfnod paratoi yn bwysig a bydd yn galluogi hwylusydd(wyr) ac arweinydd(wyr) y gymuned a nodir i sefydlu perthynas a chytuno ar ffurf penodol y gymuned ar gyfer cyflawni'r gofyniad a amlinellir gan y grŵp sydd yn noddi.




| Cam | Disgrifiad |
|---|---|
| Paratoi | Gweithio gyda noddwr ac arweinwyr Communities4Change Cymru i gwmpasu'r gwaith, recriwtio aelodau a chytuno ar ofynion adnoddau hwyluso |
| Gweithredu | Ffurfio grŵp Communities4Change Cymru a gwneud y gwaith a gytunwyd ar gyfer **cyfnod cytûn o ddim mwy na 100 o ddiwrnodau** |
| Dilyniant | Asesu beth sydd yn digwydd unwaith mae grŵp Communities4Change wedi dod i ben (e.e. a gafodd newid ei gynnal, pwy gafodd eu dylanwadu, pwy ddefnyddiodd y cynnyrch) |

# 4 Sut i…

<table>
<tr><th colspan="2">Cytuno ar noddwr</th></tr>
<tr><td colspan="2">Diben</td></tr>
<tr><td colspan="2">Nodi noddwr ar gyfer grŵp Communities4Change Cymru, cytuno ar drefniadau llywodraethu a datblygu SBAR ar gyfer arweinydd(wyr) grŵp Communities4Change Cymru</td></tr>
<tr><td>Pwy mae’n ei gynnwys</td><td>Pryd</td></tr>
<tr><td>Hwylusydd, arweinydd Uned WDoH, noddwr neu grŵp noddi</td><td>Cyfnod paratoi Community4Change Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sut mae da yn edrych</td></tr>
<tr><td colspan="2">• Y noddwr yn cael ei nodi a’i ymgysylltu gydag ymagwedd Communities4Change Cymru fel ffordd o gyflawni effaith<br>• Y noddwr yn gallu cyfleu maes i ganolbwyntio arno ar gyfer grŵp Communities4Change Cymru a pham y mae’n bwysig cyflymu gweithredu yn y maes hwn<br>• Y noddwr yn gallu adnabod arweinwyr angerddol a gwybodus fyddai’n ymrwymo i ymagwedd Communities4Change Cymru i gyflawni effaith<br>• Y noddwr wedi cytuno ar drefniadau llywodraethu a graddfeydd amser ar gyfer grŵp Communities4Change Cymru.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol</td><td>Offer</td></tr>
<tr><td>• Pwy yw’r noddwr neu’r grŵp noddi?<br>• Beth yw nod(au)’r noddwr ar gyfer grŵp Communities4Change Cymru?<br>• Beth yw’r graddfeydd amser ar gyfer cyflawni newid?<br>• Beth yw’r mecanwaith ar gyfer adrodd yn ôl i’r noddwr?<br>• Pwy mae’r noddwr yn teimlo ddylai gael ei gynrychioli ar grŵp Communities4Change Cymru?<br>• Pwy mae’r noddwr yn ei argymell fel arweinydd(wyr) ar gyfer grŵp Communities4Change Cymru?<br>• Sut olwg sydd ar lwyddiant ar gyfer y noddwr / grŵp noddi?</td><td>• Sefyllfa, Cefndir, Asesiad, Argymhellion (templed SBAR)<br>• Briff a sleidiau ymagwedd Communities4Change Cymru</td></tr>
<tr><td>Gweithgareddau a awgrymir</td><td>Darllen pellach ac adnoddau</td></tr>
<tr><td>• Cyflwyniad ar ymagwedd Communities4Change Cymru i’r noddwr<br>• Cwblhau SBAR a chytuno ar drefniadau llywodraethu</td><td>Partnerships; Principles and Practice of Health Promotion: Health Promotion and Intersectoral Working – Health Knowledge</td></tr>
</table>

<table>
<tr><th colspan="2">Cwmpasu a chynllunio</th></tr>
<tr><td colspan="2">Diben</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cynnal cwmpasu a chynllunio gydag arweinydd(wyr) grŵp Communities4Change Cymru i ddiffinio diben y gymuned</td></tr>
<tr><td>Pwy mae’n ei gynnwys</td><td>Pryd</td></tr>
<tr><td>Hwylusydd(wyr), arweinydd(wyr) grŵp Communities4Change Cymru</td><td>Cyfnod paratoi Communities4Change Cymru</td></tr>
<tr><td colspan="2">Sut mae da yn edrych</td></tr>
<tr><td colspan="2">• Diben, nodau arfaethedig a strategaeth ymadael ar gyfer grŵp Communities4Change Cymru wedi cael eu cyfleu gan yr arweinydd(wyr) a’r hwylusydd(wyr)<br>• Arweinwyr yn deall proses Communities4Change Cymru, gofynion hwyluso wedi eu cytuno a chynrychiolaeth ar y grŵp wedi ei chytuno.</td></tr>
<tr><td>Cwestiynau allweddol</td><td>Offer</td></tr>
<tr><td>• O ystyried y SBAR gan y noddwr, beth yw diben grŵp Communities4Change Cymru?<br>• Beth yw’r ystod o sefydliadau y mae angen iddynt gael eu cynrychioli yn y gymuned?<br>• Sut bydd caniatâd yn cael ei gytuno gyda’r sefydliad i’r aelod fynychu’r gymuned a chyfrannu y tu allan i gyfarfodydd?<br>• Pwy yw’r dylanwadwyr allweddol yn y sefydliadau hynny?<br>• Pa gyfraniad sydd ei angen gan aelodau?<br>• Beth yw’r dull o gyfathrebu (e.e. mewn person neu trwy lwyfan digidol?)<br>• Sawl gwaith ddylai’r grŵp gyfarfod ar y cyd i adolygu cynnydd a’r hyn a ddysgwyd? Beth yw’r strategaeth ymadael?<br>• Pa fath o hwyluso neu hyfforddiant sydd ei angen a pha offer allai gynorthwyo hwyluso?<br>• Beth mae’r arweinydd eisiau ei gyflawni yn y sesiwn gyntaf?</td><td>• Rhestr wirio hwyluso a gofynion hyfforddiant<br>• Ymrwymiad aelodau (adnoddau, amser, egni)<br>• Briff a sleidiau ymagwedd Communities4Change Cymru<br>• Mapio dylanwadwyr allweddol</td></tr>
</table>


| Gweithgareddau a awgrymir | Darllen pellach ac adnoddau |
|---|---|
| • Cyflwyniad gan yr hwylusydd a sesiwn holi ac ateb gyda'r arweinydd(wyr) ar broses a gofynion Communities4Change Cymru<br>• Hwylusydd yn cwblhau'r rhestr wirio<br>• Ymarfer cyfnewid syniadau ar aelodau Communities4Change Cymru | Improvement Collaboratives in Healthcare – Sefydliad Iechyd<br>Leading Large Scale Change – GIG |

## Datblygu ymrwymiad

| Diben | |
|---|---|
| Datblygu ymgysylltu, rhyddhau ysgogiad cynhenid a chynnal ymrwymiad aelodau grŵp Communities4Change Cymru | |
| **Pwy mae'n ei gynnwys** | **Pryd** |
| Hwylusydd(wyr), arweinydd(wyr) Communities4Change Cymru, aelodau grŵp Communities4Change Cymru | Cyfnod gweithredu grŵp Communities4Change Cymru |
| **Sut mae da yn edrych** | |
| • Mae gan aelodau ddealltwriaeth glir o'r broses, wedi gwneud ymrwymiad ffurfiol i gyfrannu at y broses o fewn graddfa amser gytûn ac wedi cael caniatâd gan eu sefydliad i gymryd rhan.<br>• Arddull arweinyddiaeth addasol sydd yn galluogi ymgysylltiad ac ysgogiad aelodau. | |
| **Cwestiynau allweddol** | **Offer** |
| • Sut a phryd bydd ymagwedd Communities4Change Cymru'n cael ei gyfathrebu i'r cyfranogwyr?<br>• Sut bydd diben a nodau'r grŵp yn cael ei fynegi?<br>• Sut bydd y nodau arfaethedig yn cael eu cytuno gyda'r grŵp?<br>• Beth yw gwerthoedd y grŵp?<br>• Beth yw gobeithion ac ofnau aelodau'r grŵp ar gyfer y gymuned?<br>• Pa sgiliau a gwybodaeth y mae pob aelod yn eu rhoi i'r grŵp?<br>• Sut bydd ymrwymiad yn cael ei gynnal yn ystod cyfnod her grŵp Communities4Change Cymru? | • Mapio nodau (o Gymuned Q)<br>• Gobeithion ac ofnau (o Gymuned Q)<br>• Cyfnewid sgiliau (o Gymuned Q)<br>• Contract ymrwymiad |

| Gweithgareddau a awgrymir | Darllen pellach ac adnoddau |
|---|---|
| • Defnyddio offer mapio nodau i drafod gyda'r grŵp sut gallant gyflawni'r nod cyffredinol.<br>• Yn ystod y sesiwn gychwynnol, gofyn i bobl beth yw eu gobeithion a'u hofnau ar gyfer y gymuned<br>• Yn ystod y sesiwn gychwynnol, cofnodi'r sgiliau a'r wybodaeth y mae aelodau'n eu rhoi i'r grŵp | The Facilitator's Toolkit – GIG<br>Creative Approaches to Problem Solving – Cymuned Q |

## Egluro'r mater a chytuno ar nodau – diagnosteg



| Diben | |
|---|---|
| I egluro'r mater, nodi a mynd i'r afael ag unrhyw fylchau mewn gwybodaeth. Cytuno ar nodau a ffactorau llwyddiant grŵp Communities4Change Cymru | |
| **Pwy mae'n ein gynnwys** | **Pryd** |
| Hwylusydd(wyr), arweinydd(wyr) Communities4Change Cymru, aelodau Communities4Change Cymru | Cyfnod gweithredu Communities4Change Cymru |
| **Sut mae da yn edrych** | |
| • Mae gan aelodau'r gymuned syniad o'r materion ac wedi cytuno ar y nod(au) arfaethedig ar gyfer y gymuned a'r ffordd y dylai llwyddiant edrych<br>• Mae safbwyntiau gwahanol ar y mater yn cael eu trafod a'u hannog gan yr hwylusydd a'r arweinydd(wyr)<br>• Mae data a mewnwelediadau presennol yn cael eu hystyried ac mae bylchau mewn gwybodaeth yn cael eu nodi. | |
| **Cwestiynau allweddol** | **Offer** |
| • Beth ydym eisoes yn ei wybod am y mater neu'r flaenoriaeth?<br>• Beth yw'r ffactorau sydd yn achosi neu'n cyfrannu at y mater hwn?<br>• Pa wybodaeth ychwanegol neu fewnwelediadau sydd angen i ni wybod amdanynt i fireinio ein nod(au) ar gyfer y grŵp?<br>• Beth sydd eisoes yn digwydd i fynd i'r afael â'r mater hwn?<br>• Sut byddai llwyddiant yn edrych (h.y. sut byddem yn gwybod ein bod wedi cael effaith?) | • Ffurfio<br>• Chwe Het Feddwl (o Gymuned Q)<br>• Awgrymiadau Meddwl Ochrol (o Gymuned Q)<br>• Cylchoedd a chawl (o Gymuned Q)<br>• Damcaniaeth Newid<br>• Diagram Ysgogwr |

| | |
|---|---|
| • Beth sydd wedi cael ei roi ar brawf yn y gorffennol? Beth sydd heb weithio?<br>• Pa elfennau sydd wedi gweithio? | |
| **Gweithgareddau a awgrymir** | **Darllen pellach ac adnoddau** |
| • Yn dibynnu ar y broblem, dylai'r hwylusydd helpu i ddethol offer priodol ar gyfer gweithgareddau ymgysylltu | [Leading Large Scale Change – GIG]<br>[Creative Approaches to Problem Solving – Cymuned Q] |

## Cytuno ar ateb dewisol

| | |
|---|---|
| **Diben** | |
| Creu amrywiaeth o atebion, nodi eu buddion a'u hanfanteision a chytuno ar ateb dewisol gydag aelodau grŵp Communities4Change Cymru | |
| **Pwy mae'n ei gynnwys** | **Pryd** |
| Hwylusydd(wyr), arweinydd(wyr) grŵp Communities4Change Cymru, aelodau grŵp Communities4Change Cymru, noddwr/grŵp noddi | Cyfnod gweithredu Communities4Change Cymru |
| **Sut mae da yn edrych** | |
| • Mae pawb yn gyfforddus gyda'r ateb – nid yw cytundeb o 100% ar draws y gymuned o reidrwydd yn bosibl/angenrheidiol.<br>• Mae dod i gytundeb yn golygu nad oes unrhyw aelodau yn atal yr ateb ond gall fod rhai amheuon. | |
| **Cwestiynau allweddol** | **Offer** |
| • Beth yw'r ystod o atebion ar gyfer mynd i'r afael â'r mater neu'r flaenoriaeth?<br>• Beth yw'r buddion a'r anfanteision ar gyfer pob ateb?<br>• Beth yw'r meini prawf ar gyfer penderfynu ar opsiwn dewisol?<br>• Beth yw safbwyntiau'r defnyddwyr terfynol ar yr ystod o atebion?<br>• A oes angen i ni greu prototeip neu brofi opsiwn neu a oes cynnyrch wedi eu diffinio'n glir?<br>• Pa adnoddau ychwanegol sydd eu hangen arnom? | • Awgrymiadau Meddwl Ochrol (o Gymuned Q)<br>• Isafswm Manyleb (o Gymuned Q)<br>• Model Rhesymeg<br>• Dadansoddiad SWOT<br>• Syrthio am ymlaen<br>• Techneg ysgol<br>• Techneg grŵp enwol<br>• Fframwaith Gwneud Penderfyniadau Cytûn |

| | |
|---|---|
| • Sut byddwn yn cyflwyno'r ateb(ion) dewisol i'r noddwr / grŵp noddi? | |
| Gweithgareddau a awgrymir | Darllen pellach ac adnoddau |
| • Disgrifio atebion a chofnodi safbwyntiau grwpiau am fuddion ac anfanteision<br>• Syrthio am ymlaen – pam y gallai ateb fethu? Wrth ddatblygu/trafod atebion, meddyliwch pam na fyddai'n gweithio. Pa heriau allai ddigwydd? Sut byddech chi'n datrys y problemau posibl hynny?<br>• Prawf ar gyfer cytundeb; unrhyw flocio, sefyll i'r naill ochr, amheuon neu gytundeb? | Creative Approaches to Problem Solving – Cymuned Q<br>Introduction to consensus decision making – Seeds for Change |

## Datblygu a / neu weithredu atebion

| | |
|---|---|
| Diben | |
| Defnyddio proses ailadroddol i ddatblygu a / neu weithredu ateb | |
| Pwy mae'n ei gynnwys | Pryd |
| Hwylusydd(wyr), arweinydd(wyr) grŵp Communities4Change Cymru, aelodau grŵp Communities4Change Cymru | Cyfnod gweithredu Communities4Change Cymru |
| Sut mae da yn edrych | |
| • Mae ateb yn cael ei ddisgrifio'n glir ac mae'r aelodau yn deall eu rolau yn datblygu neu weithredu'r ateb<br>• Mae'r ateb wedi cael ei brofi o ran llwyddiant a'i gymeradwyo neu ei ddiwygio lle bo angen | |
| Cwestiynau allweddol | Offer |
| Datblygu'r ateb<br>• Pwy sy'n gyfrifol am bob tasg wrth ddatblygu'r ateb<br>• Os oes angen, sut byddwn yn prototeipio, yn profi ac yn mireinio'r ateb?<br>• Sut bydd y defnyddwyr terfynol yn gysylltiedig â datblygu'r ateb?<br>• Sut bydd arweinwyr yn cynnal momentwm a theimlad o frys yn datblygu'r ateb? | • Her(iau) 30/60/90 diwrnod<br>• Cylch PDSA<br>• Model ar gyfer Gwella<br>• Ymgysylltu/cynnwys y defnyddiwr terfynol - adborth |

| | |
| --- | --- |
| • Sut byddwn yn gwybod bod yr ateb yn gweithio neu'n cyflawni ei nodau a'i amcanion?<br><br>Rhoi ateb ar waith<br>• Pwy sy'n gyfrifol am bob tasg wrth roi ateb ar waith?<br>• A yw defnyddwyr terfynol wedi cyfrannu at ddatblygu'r ateb?<br>• Sut byddwn yn gwybod bod yr ateb wedi cael ei roi ar waith yn llwyddiannus? | |
| Gweithgareddau a awgrymir | Darllen pellach ac adnoddau |
| • Yn dibynnu ar nod y gymuned a natur yr ateb, dewis profion a dulliau gweithredu priodol | The Quality Improvement Guide: The Improving Quality Together Edition – GIG Cymru (cylchoedd PDSA)<br>The Quality Improvement Guide – GIG Cymru |

| **Asesu effaith Communities4Change Cymru** | |
| --- | --- |
| Diben | |
| Gweithredu strategaeth ymadael a gwerthuso ac asesu canlyniad ac effaith cymuned | |
| Pwy mae'n ei gynnwys | Pryd |
| Hwylusydd(wyr), arweinydd(wyr) Communities4Change Cymru, aelodau Communities4Change Cymru, noddwr/grŵp noddi | Cyfnod dilynol Communities4Change Cymru – dylai hyd y cyfnod dilynol gael ei gytuno yn ystod y cyfnod paratoi |
| Sut mae da yn edrych | |
| • Cynnal asesiad cychwynnol: a gyflawnwyd nod?<br>• Cynnal asesiad dilynol: a gafodd y canlyniad ei gynnal? | |
| Cwestiynau allweddol | Offer |
| • Beth oedd y canlyniad ar ddiwedd y cyfnod gweithredu? Beth mae'r gymuned wedi ei gyflawni?<br>• A yw'r noddwr yn fodlon?<br>• A yw'r noddwr wedi cael ei ddylanwadu i effeithio ar newid pellach i system, cyflwyno'r achos dros adnoddau pellach neu gomisiynu cymuned arall? | • Fframwaith Enfys (i gynllunio gwerthuso)<br>• Asesiad 'bywyd ar ôl y gymuned' |

| | |
|---|---|
| • A oes unrhyw ganlyniadau nas bwriadwyd (cadarnhaol a negyddol) o ganlyniad i waith grŵp Communities4Change Cymru?<br>• A yw'r newidiadau wedi cael eu cynnal neu a oes unrhyw waith pellach wedi cael ei wneud yn ystod y cyfnod dilyniant? | |
| Gweithgareddau a awgrymir | Darllen pellach ac adnoddau |
| • Adborth gan arweinydd(wyr) Communities4Change Cymru ar strwythur a phroses y gymuned<br>• Adborth gan aelodau ar ffurf arolwg ar-lein / dros y ffôn neu grŵp ffocws.<br>• Adroddiad a briff diwedd cymuned i grŵp noddi ar ganlyniad ac effaith y gymuned a'r camau nesaf (os yw'n berthnasol)<br>• Asesiad 'bywyd ar ôl y gymuned' | Evaluation: what to consider. Commonly asked questions about how to approach evaluation of quality improvement in health care – Sefydliad Iechyd<br>The Evaluation Cycle – NHS Evaluation Works<br>Rainbow Framework - BetterEvaluation |

## 4.1 Dod â grwpiau Communities4Change Cymru i ben

- Adroddiad diwedd cymuned. Adroddiad sydd yn datgan yr hyn a wnaed a pham yn ogystal â chanlyniad ac ateb (neu resymau dros dim canlyniad/ateb).
- Asesiad ar unwaith o Communities4Change Cymru gan Rwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru – a gyflawnwyd y nod?
- Adborth gan aelodau i fireinio'r broses a gwella grwpiau Communities4Change Cymru yn y dyfodol.
- 'Bywyd ar ôl y gymuned'. Asesiad/gwerthusiad dilynol: beth ddigwyddodd i'r canlyniad/ateb? A gafodd ei weithredu?

# 5 Adnoddau ategol

I gynorthwyo hwyluswyr ac arweinwyr yn ystod y cyfnod paratoi gweler:

- Canllaw Hwyluso Communities4Change Cymru
- Canllaw Gwerthuso Communities4Change Cymru

# 6 Cyfeiriadau

1. Heathcote-Elliott, C a Winding, C. Communities4Change Wales – Scope and Development. 2021. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.